# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 4 Chwefror 2019

Amser: 14. - 15.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5259

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Mick Antoniw AC (Cadeirydd)<br>Suzy Davies AC<br>Carwyn Jones AC<br>Llyr Gruffydd AC (yn lle Dai Lloyd AC) |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Sarah Sargent (Ail Glerc)<br>Ruth Hatton (Dirprwy Glerc)<br>Alys Thomas (Ymchwilydd)<br>Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Katie Wyatt (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant

Cafwyd ymddiheuriadau gan Dawn Bowden AC a Mandy Jones AC. Cafwyd ymddiheuriadau hefyd gan Dai Lloyd AC, a bu Llyr Gruffyd AC yn dirprwyo ar ei ran.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## 2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3

### 2.1 SL(5)306 - Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Meini Prawf Penodedig, Ffioedd a Ffioedd am Geisiadau Tybiedig) (Cymru) (Diwygio) 2019

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon arno.

## 3 Offerynnau a ystyriwyd yn flaenorol ar gyfer sifftio ac sydd bellach yn destun craffu o dan Reolau Sefydlog 21.2 a 21.3

### 3.1 SL(5)307 - Rheoliadau Da Byw (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019

### 3.2 SL(5)308 - Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid ac Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019

### 3.3 SL(5)309 - Rheoliadau Etholiadau (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

### 3.4 SL(5)311 - Rheoliadau Taliadau Gwasanaeth(Gofynion Ymgynghori) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

Trafododd y Pwyllgor yr offerynnau, gan nodi'r pwyntiau rhagoriaeth ar gyfer bob un ohonynt, ac roedd yn fodlon arnynt.

## 4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### 4.1 SL(5)304 - Rheoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) 2019

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn, a bydd yn adrodd i'r Cynulliad yn unol â'r pwynt technegol a nodwyd.

### 4.2 SL(5)301 - Rheoliadau Ardaloedd Rheoli Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) (Cymru) 2019

Nododd y Pwyllgor ymateb y Llywodraeth, ac roedd yn fodlon arno.

## 5 Offerynnau negyddol arfaethedig nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3B

### 5.1 pNeg(5)15 – Rheoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

### 5.2 pNeg(5)16 – Rheoliadau Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

Trafododd y Pwyllgor yr offerynnau ac roedd yn fodlon mai'r weithdrefn negyddol ddylai fod yn berthnasol iddynt.

## 6 Offerynnau Statudol sydd angen Cydsyniad: Brexit

### 6.1 SICM(5)18 – Rheoliadau Gwrteithiau a Deunydd Amoniwm Nitrad (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

Nododd y Pwyllgor femorandwm cydsyniad yr offeryn statudol a chytunodd i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am eglurhad ynghylch pam na osodwyd datganiad ysgrifenedig ar gyfer y Rheoliadau.

## 7 Datganiadau ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C

### 7.1 WS-30C(5)78 – Rheoliadau Mewnforio a Masnachu Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019

Nododd y Pwyllgor y datganiad a'r sylwebaeth. Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am eglurhad ar y materion a godwyd yn y sylwebaeth.

### 7.2 WS-30C(5)79 – Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid Dyfrol ac Iechyd Planhigion (Swyddogaethau Deddfwriaethol) (Ymadael â'r UE) 2019

Nododd y Pwyllgor y datganiad a'r sylwebaeth.

### 7.3 WS-30C(5)80 – Rheoliadau Cemegion (Iechyd a Diogelwch) ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Defnydd Cyfyngedig) (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019

Nododd y Pwyllgor y datganiad a'r sylwebaeth.

### 7.4 WS-30C(5)81 - Rheoliadau Cymorth Gwladwriaethol (Ymadael â’r UE) 2019

Nododd y Pwyllgor y datganiad a'r sylwebaeth. Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Cwnsler Cyffredinol i ofyn am eglurhad ar y materion a godwyd yn y sylwebaeth, gan gynnwys achos posibl o dorri'r Cytundeb Rhynglywodraethol. Cytunodd y Pwyllgor hefyd i dynnu sylw Pwyllgor Craffu ar is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi a Phwyllgor Chyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi at y materion hyn.

### 7.5 WS-30C(5)82 - Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

Nododd y Pwyllgor y datganiad a'r sylwebaeth. Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am eglurhad ar y materion a godwyd yn y sylwebaeth.

## 8 Papurau i’w nodi

### 8.1 Llythyr gan yr Arglwydd Boswell Cadeirydd Pwyllgor Undeb Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi: Cysylltiadau rhyng-sefydliadol rhwng y DU a'r UE ar ôl ymadael â'r UE, a rôl y sefydliadau datganoledig

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan yr Arglwydd Boswell a chytunodd i ymateb iddo, gan dynnu ei sylw at adroddiad y Pwyllgor ar Lywodraethiant yn y DU ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd ac adroddiad Syr Paul Silk ar sefydlu Cynhadledd Llefaryddion.

## 9 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y mater a ganlyn:

Derbyniwyd y cynnig.

## 10 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Pysgodfeydd y DU: Adroddiad Drafft

Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad a chytunodd i ailystyried fersiwn ddiwygiedig yn y cyfarfod nesaf.

## 11 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid Gwasanaeth)

Trafododd y Pwyllgor y nodyn cyngor cyfreithiol a chytunodd i adrodd ar y mater yn fuan.

## 12 Craffu ar reoliadau a wnaed o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018: Diweddariad

Nododd y Pwyllgor y diweddariad.